**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)**

**BIL CYNRYCHIOLAETH Y BOBL**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig. Mae angen Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol pellach hefyd pan fo Llywodraeth y DU yn cyflwyno gwelliannau i Fil sy'n gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf.

2. Cyflwynwyd Bil Cynrychiolaeth y Bobl ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin, Senedd y DU, ar 12 Chwefror 2026. Cafodd y Bil ei gario drosodd i'r sesiwn seneddol hon ac ailddechreuodd ei daith ar 14 Mai 2026. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 16 Mehefin 2026, sydd i'w weld yma: https://dogfennauaosodwyd.senedd.cymru/lcm-ld18060-cy.pdf.

3. Roedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol yn nodi'r darpariaethau yn y Bil sy'n sbarduno'r broses cydsyniad, ond nid oedd yn cynnwys argymhelliad ynghylch a ddylai'r Senedd gydsynio i'r darpariaethau hynny. Mae trafodaethau gyda Llywodraeth y DU yn parhau mewn perthynas â rhai darpariaethau penodol nad ydynt ar hyn o bryd yn gyson â'n hegwyddorion ar Ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig, ac felly nid yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn ychwaith yn cynnwys argymhelliad ar gydsyniad ar hyn o bryd. Bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach yn cael ei osod sy'n cynnwys argymhelliad ar gydsyniad ar gyfer y Bil yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys gwelliannau gan Lywodraeth y DU a gyflwynwyd ar 7 Gorffennaf 2026 ac unrhyw welliannau dilynol gan Lywodraeth y DU.

4. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ac a ailddechreuodd ei daith ar 14 Mai 2026, i'w weld yn: https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/59-02/0004/260004.pdf

5. Cyflwynodd Llywodraeth y DU 81 o welliannau ar 7 Gorffennaf i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, a oedd i fod i ddechrau ar 14 Gorffennaf, ond ers hynny mae wedi'i ohirio tan 2 Medi. Nid yw'r mwyafrif o'r gwelliannau yn rhoi sylw i faterion datganoledig fel y nodir ym mharagraff 28 isod.

6. Ar 17 Gorffennaf, ysgrifennais at y Llywydd yn amlinellu'r rhesymau pam nad oedd yn bosibl gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn o fewn y terfyn amser arferol o bythefnos o dan RhS 29.

**Amcan(ion) Polisi**

7. Nodwyd amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 16 Mehefin.

**Crynodeb o'r Bil**

8. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol yn cynnwys crynodeb o'r darpariaethau yn y Bil a gellir dod o hyd iddo drwy'r ddolen ym mharagraff 2.

9. Yn unol â nod Llywodraeth y DU o weithio mewn ffordd gydweithredol â'r llywodraethau datganoledig ar y meysydd hyn, mae Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn rheolaidd yn ystod y broses o lunio'r Bil. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o drafodaethau polisi ar feysydd penodol ac maent wedi cael cyfle i roi sylwadau ar y gwaith o lunio'r ddeddfwriaeth ac i gyfrannu at y gwaith hwnnw, i'r graddau yr oedd hynny'n bosibl o fewn y cyfnod a oedd ar gael, i sicrhau bod effeithiau datganoledig yn cael eu hystyried yn llawn. Mae'r un dull wedi'i ddefnyddio ar gyfer gwelliannau gan Lywodraeth y DU a wneir i'r Bil yn ystod ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin.

10. Er bod fy swyddogion wedi parhau i ymgysylltu'n adeiladol â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU, ni chafodd Llywodraeth Cymru gyfle i ystyried manylion llawn y nifer sylweddol o welliannau a gyflwynwyd ar 7 Gorffennaf cyn eu gosod gerbron Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Roedd nifer a chymhlethdod y gwelliannau, ynghyd â'r amser byr a oedd ar gael ar gyfer ystyried mwyafrif y gwelliannau cyn y Cyfnod Adrodd, yn golygu nad oedd yn bosibl cwblhau'r dadansoddiad angenrheidiol o fewn y terfyn amser arferol o bythefnos o dan RhS 29. Disgwylir trafodaethau pellach cyn cyfnodau diwygio yn y dyfodol, a bydd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol eraill yn cael eu hystyried pe bai rhagor o welliannau yn cael eu cyflwyno.

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

11. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 16 Mehefin yn nodi'r darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer, gan gynnwys gwelliannau y cytunwyd arnynt yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.

12. Cyflwynodd Llywodraeth y DU sawl gwelliant i'r Bil ar 7 Gorffennaf. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn cyd-fynd ag ymateb Llywodraeth y DU i Adolygiad

Rycroft i ymyrraeth dramor mewn gwleidyddiaeth, gydag ychydig o welliannau technegol ychwanegol.

13. Mae'r rhan fwyaf o'r gwelliannau hyn yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl, ond mae'r gwelliannau hynny sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd wedi'u nodi isod.

**Gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

14. **Gwelliant NC73 - Ystyr Rhodd.** Mae hyn yn diwygio ystyr rhodd at ddibenion darpariaethau presennol ynghylch rheoli rhoddion i ymgeiswyr, pleidiau cofrestredig a phersonau eraill i gynnwys eiddo a drosglwyddir i dalu treuliau penodol y personau hynny. Mae'r gwelliant yn gwneud newidiadau i nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth, ac mae angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r gwelliannau a wneir i'r canlynol:

    - Paragraff 2(1)(c) o Atodlen 11 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) i'r graddau y mae'n ymwneud â rhoddion a wneir i drydydd partïon cydnabyddedig mewn cysylltiad ag etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru;
    - Atodlen 2A i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i'r graddau y mae'n ymwneud â rhoddion a wneir i ymgeiswyr a'u hasiantau etholiadol mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru; a
    - Pharagraff 2(1)(c) o Atodlen 6 i Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch rheoli rhoddion i ymgeiswyr unigol sy'n sefyll yn etholiadau'r Senedd.

15. **Gwelliannau NC75 a Gov100 - Pŵer i ymestyn cyfyngiadau penodol i fathau eraill o roddion a benthyciadau etc**. Mae NC75 yn rhoi pŵer newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol i, drwy reoliadau, osod gwaharddiadau a chyfyngiadau cyfatebol neu debyg i'r rhai a nodir yn y darpariaethau sy'n ymwneud â chryptoasedau (gwelliant NC72), rhoddion a benthyciadau gan roddwyr tramor (gwelliant NC74) a rhoddion gan gwmnïau a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (cymal 60 o'r Bil). Mae Gov100 yn darparu i NC75 ddod i rym adeg y Cydsyniad Brenhinol.

16. Byddai'r pŵer a roddir gan NC75 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau a fyddai'n ymestyn cyfyngiadau cyfatebol i (ymhlith pethau eraill):
    - roddion a wneir i drydydd partïon cydnabyddedig mewn cysylltiad ag etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru;
    - rhoddion a wneir i ymgeiswyr (a'u hasiantau) mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru; a
    - rhoddion i ymgeiswyr unigol yn etholiadau'r Senedd.

17. Pan fydd unrhyw reoliadau a wneir yn ymestyn y rheolaethau mewn perthynas â chryptoasedau a rhoddion gan bleidleiswyr tramor, gellid rhoi effaith ôl-weithredol i'r darpariaethau hynny o 25 Mawrth 2026 ymlaen. Rhaid gwneud unrhyw reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o fewn 18 mis gan ddechrau gyda'r diwrnod y mae'r Bil yn cael ei basio.

18. Byddai rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol a byddai angen eu cymeradwyo gan ddau Dŷ Senedd y DU. Cyn gosod unrhyw reoliadau gerbron Senedd y DU, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â'r isod:
    - y Comisiwn Etholiadol;
    - Gweinidogion yr Alban mewn perthynas ag unrhyw agweddau ar y rheoliadau sy'n ymwneud â materion datganoledig yr Alban; a
    - Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag unrhyw agweddau ar y rheoliadau sy'n ymwneud â materion datganoledig Cymru (mae'r rhain yn faterion y byddai'r ddarpariaeth ar eu cyfer o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru pe bai'n cael ei chynnwys mewn Deddf gan y Senedd, ac eithrio unrhyw ofyniad am gydsyniad Gweinidog y Goron a osodir o dan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

19. Gall rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol roi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau neu orchmynion pellach trwy offeryn statudol, a all gynnwys pŵer i ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfiad. Os cynhwysir unrhyw bwerau is-ddirprwyedig mewn rheoliadau, a bod y rheoliadau neu'r gorchmynion a wneir yn dibynnu arnynt i fod yn gymwys mewn perthynas â materion datganoledig yr Alban neu faterion datganoledig Cymru, cyn gwneud y rheoliadau neu'r gorchmynion, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion yr Alban neu (fel y bo'n briodol) â Gweinidogion Cymru.

20. Mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y gwelliant hwn i'r graddau y mae'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau a fyddai'n ymestyn y rheolaethau mewn perthynas â chryptoasedau, rhoddion gan etholwyr tramor, a rhoddion gan gwmnïau a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig i'r canlynol:
    - rhoddion a wneir i drydydd partïon cydnabyddedig mewn cysylltiad ag etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru;
    - rhoddion a wneir i ymgeiswyr (a'u hasiantau) mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru; a
    - rhoddion i ymgeiswyr unigol yn etholiadau'r Senedd.

21. **Gwelliant Gov129 - Ymestyn swyddogaethau gorfodi'r Comisiwn Etholiadol.** Mae Gov125, Gov126, Gov127, Gov129 a Gov131 yn diwygio Atodlen 11 i'r Bil i ymestyn pwerau ymchwilio'r Comisiwn Etholiadol i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddarparu dogfennau, gwybodaeth neu esboniadau sy'n ymwneud ag incwm a gwariant personau a grybwyllir ym mharagraff 1(1) o Atodlen 19B i PPERA (h.y. derbynwyr rheoleiddiedig). Mae'r gwelliannau hefyd yn darparu ar gyfer

gorfodi drwy'r llysoedd, er mwyn galluogi'r Comisiwn Etholiadol i wneud cais i'r llys a chael gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person ddarparu dogfennau/gwybodaeth/esboniad y gofynnir amdanynt gan y Comisiwn Etholiadol. Gallai methiant person i ddarparu dogfennau/gwybodaeth/esboniad o'r fath a orchmynir gan y llys arwain at y person hwnnw naill ai'n cael ei ddal mewn dirmyg llys neu'n cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd o dan baragraff 13(1) o Atodlen 19B i PPERA.

22. I'r graddau y mae'r gwelliannau yn gymwys ac yn ystyried materion datganoledig, megis rhoddion i ymgeiswyr a thrydydd partïon mewn cysylltiad ag etholiadau datganoledig, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y gwelliant hwn.

23. **Gwelliannau NC78 a Gov99 - Rhannu gwybodaeth rhwng y Comisiwn Etholiadol ac eraill**. Mae NC78 yn disodli cymal 71 o'r Bil i ddarparu ar gyfer porth dwyffordd i rannu gwybodaeth rhwng y Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau cyhoeddus penodol, ehangu'r categori o awdurdodau cyhoeddus y mae'r porth yn gymwys iddynt, a gosod cyfyngiadau ar ddatgelu ymlaen wybodaeth a ddarperir gan awdurdod refeniw. Mae NC78 yn mewnosod adrannau newydd 148B-H yn PPERA.

24. Diffinnir 'awdurdod cyhoeddus perthnasol' ac mae'n cynnwys Awdurdodau Cymreig Datganoledig megis Comisiynydd Safonau'r Senedd, Awdurdod Cyllid Cymru, a Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, ac mae hefyd yn cynnwys swyddogion sy'n ymwneud ag etholiadau Cymreig datganoledig (gan gynnwys swyddogion cofrestru etholiadol, swyddogion canlyniadau a'r rhai sy'n cyflawni rhai neu bob un o swyddogaethau swyddogion o'r fath). Mae hefyd yn cynnwys 'adran y llywodraeth' nad yw'n cael ei diffinio ymhellach. Mae'r cymal yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i amrywio'r diffiniad o 'awdurdod cyhoeddus perthnasol' sy'n ddarostyngedig i ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol a/neu argymhelliad y Comisiwn Etholiadol. O ganlyniad, mae Gov99 yn dileu'r cymal 71 presennol o'r Bil.

25. Mae'r cymal yn rhoi pŵer i'r Comisiwn Etholiadol i ddatgelu gwybodaeth i eraill (adran newydd 148C o PPERA) a darpariaethau cysylltiedig. Diben yr adran newydd yw cynorthwyo eraill i arfer eu swyddogaethau, ac i'r graddau y mae'r swyddogion/cyrff hynny yn arfer swyddogaethau mewn meysydd datganoledig, mae'n ymwneud â materion datganoledig. Mae'r 'awdurdodau cyhoeddus perthnasol' canlynol yn arfer swyddogaethau mewn materion datganoledig: cyrff y Senedd, Awdurdod Cyllid Cymru, swyddogion cofrestru etholiadol yng Nghymru a swyddogion canlyniadau ar gyfer etholiadau datganoledig ac adrannau'r llywodraeth.

26. Mae adran 148B yn gosod pŵer ar 'awdurdodau cyhoeddus perthnasol' i ddatgelu gwybodaeth i'r Comisiwn Etholiadol at ddibenion ei gynorthwyo gyda'i swyddogaethau. Mae'r cyrff sy'n dod o fewn y diffiniad o 'awdurdod cyhoeddus perthnasol' yn cynnwys Awdurdodau Cymreig Datganoledig (a restrir ym mharagraff 24 uchod). Ni ellir datgelu unrhyw wybodaeth a ddatgelir i'r Comisiwn Etholiadol gan awdurdod refeniw ymhellach heb

gydsyniad yr awdurdod. Bydd unrhyw ddatgelu ymlaen a wneir heb y cydsyniad hwnnw yn arwain at drosedd. Mae'r cymal yn rhoi pwerau i Awdurdodau Cymreig Datganoledig ac mae o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O'r herwydd, bydd angen cydsyniad y Senedd.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

27. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 16 Mehefin yn manylu ar ddarpariaethau'r Bil, cyn y gwelliannau gan Lywodraeth y DU a gyflwynwyd ar 7 Gorffennaf, lle mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad. Mae hefyd yn manylu ar y darpariaethau lle mae ein barn yn wahanol i farn Llywodraeth y DU.

28. O ran y gwelliannau a gyflwynwyd ar 7 Gorffennaf, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn **cytuno nad oes angen** cydsyniad deddfwriaethol ar y gwelliannau canlynol:

- NC72 a NS1 – Rhoddion ar ffurf cryptoasedau
- NS2 - Trafodiadau rheoleiddiedig sy'n ymwneud â chryptoasedau
- NC74, NS3, NS4 - Cap ar roddion etc gan gyfranwyr tramor
- NC76, Gov106, Gov112, Gov115, Gov122 - Ymrwymo i drafodiadau rheoleiddiedig o dan Ran 4A o PPERA 2000
- NC77, Gov69, Gov96, Gov113 - Gweithdrefn ar gyfer rheoliadau o dan PPERA 2000
- Gov63 - Diwygio rheolau etholiad seneddol y DU
- Gov70, Gov75, Gov76, Gov77, Gov78, Gov79, Gov80, Gov81, Gov82, Gov83, Gov84, Gov85, Gov90, Gov92, Gov93, Gov94 - Rhoddion gan gwmnïau a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig etc: prawf o'r elw sy'n weddill
- Gov71, Gov72 - Rhoddion gan gwmnïau a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig etc: prawf rheolaeth sylweddol i gwmnïau
- Gov73, Gov74 - Rhoddion gan gwmnïau a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig etc: prawf rheolaeth sylweddol i gwmnïau
- Gov86, Gov87, Gov88, Gov89, Gov91 - Rhoddion gan gwmnïau a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig: prawf o'r elw sy'n weddill
- Gov95 - Rhoddion gan gwmnïau a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig: rhwymedigaeth cyflwyno cyfrifon
- Gov96 - Rhagor o wybodaeth am roddwyr sy'n gwmnïau neu'n Bartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig: adroddiadau chwarterol
- Gov98 a NS5 - Benthyciadau etc i bleidiau cofrestredig gan gwmnïau a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig
- Gov123, Gov124 - Cymdeithasau anghorfforedig sy'n gwneud cyfraniadau gwleidyddol

29. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn **cytuno** bod **angen** cydsyniad deddfwriaethol ar y gwelliannau canlynol:

- NC73 – Ystyr Rhodd

- NC75 a Gov100 - Pŵer i ymestyn cyfyngiadau penodol i fathau eraill o roddion a benthyciadau, etc.
- NC78 a Gov99 - Rhannu gwybodaeth rhwng y Comisiwn Etholiadol ac eraill
- Gov125, Gov126, Gov127, Gov128, Gov129, Gov130, Gov131 - Ymestyn swyddogaethau gorfodi'r Comisiwn Etholiadol

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru ym Mil Cynrychiolaeth y Bobl**

30. Mae'r darpariaethau sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd yn cyd-fynd ag amcanion polisi presennol Llywodraeth Cymru. Byddent yn cefnogi cysondeb ar draws y fframwaith etholiadol, a byddent yn darparu mwy o eglurder i bleidleiswyr, ymgeiswyr, ymgyrchwyr a gweinyddwyr, ac rwy'n gefnogol i'r amcanion hynny.

31. Fodd bynnag, mae angen ymgysylltu pellach â Llywodraeth y DU ar y pwerau gwneud rheoliadau yn NC75 a NC78 cyn y gallaf gyflwyno argymhelliad ar gydsyniad i'r Bil.

**Goblygiadau ariannol**

32. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 16 Mehefin, bydd goblygiadau ariannol y Bil yn fater i Lywodraeth y DU yn bennaf mewn perthynas â newidiadau i etholiadau Senedd y DU, yn enwedig mewn perthynas â chofrestru pleidleiswyr a lleihau'r oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl. Disgwylir y bydd Llywodraeth y DU yn talu unrhyw gostau o'r fath fel rhan o'r gyfundrefn ‘beichiau newydd’.

33. Nid oes unrhyw faterion ariannol newydd yn codi o'r gwelliannau hyn. Fel y nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol, mae cyllid y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau Cymreig datganoledig a refferenda Cymreig datganoledig yn daladwy o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae Asesiad Effaith y Bil yn nodi'r newidiadau i'r Comisiwn Etholiadol a bydd gorfodi yn costio tua £13.3m dros ddeng mlynedd. I roi enghraifft, byddai hyn gyfwerth â chostau o oddeutu £80k y flwyddyn, yn ôl cyfran Cymru ar gyfer yr amcangyfrif canolog. Mae’r ffigurau hyn yn seiliedig ar gynllun corfforaethol pum mlynedd y Comisiwn Etholiadol.

34. Disgwylir y bydd costau sy'n gysylltiedig â chostau is-ddeddfwriaeth i adlewyrchu newidiadau ar gyfer etholiadau'r Senedd ac er enghraifft, lle mae Gweinidogion Cymru wedi cael pwerau gwneud rheoliadau newydd o fewn y Bil. Bydd goblygiadau ariannol deddfwriaeth o'r fath yn cael eu nodi mewn Memoranda Esboniadol cysylltiedig. Bydd goblygiadau ariannol yn parhau i gael eu hadolygu wrth i'r Bil symud ymlaen drwy broses graffu Senedd y DU.

## Casgliad

35. Rwy'n cefnogi amcanion y Bil i gryfhau, moderneiddio a gwella democratiaeth. Fodd bynnag, mae angen ymgysylltu pellach â Llywodraeth y DU ar NC75 a NC78 cyn y gallaf gyflwyno argymhelliad ar gydsyniad i'r Bil hwn.

**Siân Gwenllian AS/MS**
**Y Gweinidog Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**
**4 Awst 2026**